# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 8 Hydref 2013** |
| Amser: | **09:00 - 10:57** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_08_10_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Missen, Prif Ddeisebwr**<br>**Humphrey, B-eat Cymru**<br>**Glaze, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br><br>**Mark Drakeford**<br>**Watkins, Llywodraeth Cymru**<br>**Jordan, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1P-04-504 Diogelwch Cyffordd Pont Maerdy yr A483

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth; a
- Chyngor Sir Powys

yn holi eu barn am y ddeiseb.

### 2.2P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

### 2.3P-04-506 Pasys bws am ddim / teithio rhatach i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau, i fyfyrwyr a phobl o dan 18 oed

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth; a'r
- Consortia trafnidiaeth

yn holi eu barn am y ddeiseb.

### 2.4P-04-507 Bil iawnderau yng Nghymru ar gyfer menywod a merched: ymlynu wrth y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Gwahaniaethu o bob math yn Erbyn Menywod (CEDAW)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

### 2.5P-04-508 Rhaid adfer yr Olygfa o Landyfi

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ei barn ar y ddeiseb.

### 2.6P-04-509 Achub Canolfan Tenis Genedlaethol Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, yn gofyn am ei farn am y ddeiseb ac i ofyn iddo egluro'r sefyllfa bresennol ynghylch dynodi'r cyfleuster yn Ganolfan Tenis Genedlaethol Cymru;
- Virgin Active, yn ceisio eglurhad ynghylch a oes ganddynt unrhyw gontractau gyda'r Cyngor neu Lywodraeth Cymru;
- Canolfan Tenis Abertawe, yn gofyn am wybodaeth am eu profiad diweddar o ran materion ariannu;

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-03-263 Rhestru Parc y Strade

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, yn gofyn am eglurhad ynghylch yr amserlen ar gyfer y Bil Treftadaeth arfaethedig ac a fydd yn cynnwys cynigion mewn perthynas â rhestru lleol;
- Cadw, yn gofyn am ragor o wybodaeth am y trafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda'r datblygwr a'r rhesymau pam na ellir rhestru canolfannau chwaraeon; a
- yr awdurdod lleol, mewn perthynas â rhestru lleol.

### 3.2P-04-393 Grŵp Gweithredu Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ddiolch iddi am ei hymateb, i ofyn am gael gwybod am ddatblygiadau, ac i ofyn iddi ystyried sefydlu cydweithgor gyda'r adran drafnidiaeth yn Lloegr.

### 3.3P-04-415 Cefnogaeth am Bennu Parthau Cadwraeth Morol Lefel Gwarchodaeth Uchel

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgîl datganiad diweddar y Gweinidog.

### 3.4P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

### 3.5P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog, yn gofyn iddi ystyried sylwadau pellach y deisebydd.

### 3.6P-04-491 Banc Cenedlaethol ac arian cyflenwol i Gymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- gau'r ddeiseb, gan fod Gweinidogion wedi diystyru cynlluniau i sefydlu Banc Cenedlaethol i Gymru ar hyn o bryd, ac oherwydd bod adolygiad parhaus o fynediad at gyllid yn cael ei gynnal ar hyn o bryd; a

- anfon pwyntiau pellach y deisebydd ymlaen at Weinidogion ac at yr Athro Jones-Evans.

### 3.7P-04-402 Gweddïau Cyngor

Nododd y Cadeirydd a Russell George eu bod yn aelodau o Gyngor Sir Powys.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth;
- Geisio cyngor cyfreithiol pellach os oes angen; a
- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am eu sylwadau ar ddatganiad y Gweinidog.

### 3.8P-04-413 Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghwm Cynon

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan na chafwyd ymateb gan y deisebydd.

### 3.9P-04-450 Mae Angen Ysbyty Cwbl Weithredol ar y Barri a Bro Morgannwg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i anfon sylwadau pellach y deisebydd ymlaen at Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

### 3.10 P-04-428: Ynni amgen ar gyfer goleuadau stryd

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan na chafwyd ymateb gan y deisebydd.

### 3.11 P-04-484 Allowance amount Addysg i Bawb!

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd i ofyn am ymateb i lythyr y Gweinidog.

### 3.12 P-04-485 Camddefnyddio contractau dros dro yn y sector Addysg Bellach

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i gymryd tystiolaeth lafar am y ddeiseb gan:

- y deisebydd; a
- ColegauCymru.

Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Gwasanaeth Ymchwil am grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y ddeiseb, a allai hefyd gynnwys unrhyw ymchwil a wnaed gan yr UCU.

### 3.13 P-04-487 Cynllun benthyg blaendal Llywodraeth Cymru i'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog ar sylwadau pellach y deisebydd.

### 3.14 P-04-489 Deddf genedlaethol i Gymru ar dai fforddiadwy ac â blaenoriaeth

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog ar sylwadau pellach y deisebydd.

## 4 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc: Sesiwn Dystiolaeth gyda'r Deisebydd

Atebodd Helen Missen, Susannah Humphrey a Dr Robin Glaze gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 5 P-04-408: Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc: Sesiwn Dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Atebodd Mark Drakeford AC gwestiynau'r pwyllgor, gyda chefnogaeth Jo Jordan a Dr Sarah Watkins.